Senedd Cymru
**Ymweld a dysgu**

# Eich Senedd

## Llyfr Gweithgareddau



## Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neugyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Eich Ymweliad â'r Senedd

## Croeso i'r Senedd.

Yn ystod eich ymweliad, rydyn ni'n mynd i siarad am rai o'r bobl sy'n gweithio yma a rhai o'r pethau maen nhw'n eu gwneud.

Rydyn ni hefyd yn mynd i ddangos i chi rai o'r pethau yn yr adeilad sy'n gwneud hwn yn lle arbennig i bawb yng Nghymru.

Gwrandewch yn ofalus, i weld a allwch chi ateb y cwestiynau yn y llyfr hwn. Os oes angen help arnoch, gofynnwch.



# Yn dy gynrychioli di

Daw'r bobl sy'n eich cynrychioli chi yn y Senedd o bob rhan o Gymru.

Lle bynnag rydych chi'n byw yng Nghymru, rydych chi'n byw yn un o etholaethau'r Senedd, yn un o ranbarthau'r Senedd.

Gallai eich etholaeth yn y Senedd gwmpasu rhan fawr o'r wlad, neu gallai gwmpasu rhan o dref neu ddinas – ond mae gan bob etholaeth fwy neu lai yr un faint o bobl yn byw yno. Mae etholaeth yn anfon un person i'r Senedd gan ddefnyddio system gyntaf i'r felin – hynny yw, y person sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau sy'n ennill.

Mae eich Rhanbarth yn y Senedd yn rhan fwy o Gymru, sy'n cynnwys llawer o etholaethau'r Senedd. Mae pob rhanbarth yn anfon pedwar o bobl i'r Senedd gan ddefnyddio system 'Cynrychiolaeth Gyfrannol' – mae'r bobl sy'n cael eu hethol ar gyfer y rhanbarth yn adlewyrchu'r gefnogaeth i bob plaid ledled y wlad.




**Beth rydyn ni'n galw’r cynrychiolwyr etholedig sy'n gweithio ar ran pobl Cymru?**

- Aelodau o'r Senedd
- Aelodau Seneddol
- Aelodau’r Cynulliad
- Gweinidogion Cymru

**Faint yw’r cyfanswm sy'n ein cynrychioli?**

- 40
- 60
- 80
- 100

**A wyddost ti?**

Newidiodd ‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru’ ei enw i ‘Senedd Cymru’ yn 2020.

Yn Saesneg, ei henw yw **Welsh Parliament**.

**A wyddost ti?**

Cafodd pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed bleidleisio, am y tro cyntaf, yn etholiadau’r Senedd ym mis Mai 2021.





Enwch un o'r Aelodau sy'n eich cynrychioli chi?

Beth yw enw'r Prif Weinidog?





Pwy yw'r Llywydd?



# Adeilad y Senedd

Agorodd y Senedd yn 2006, ac mae bellach yn un o adeiladau mwyaf nodedig Cymru. Mae'n cynrychioli cyfnod arwyddocaol yn hanes datganoli yng Nghymru – hanes sy'n ymestyn yn ôl ganrifoedd.

Yn yr adeilad hwn y mae Aelodau'r Senedd yn cynrychioli eich buddiannau, yn llunio deddfau Cymreig newydd, yn cytuno ar drethi newydd I Gymru ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Ar hyn o bryd, rydych yn sefyll mewn adeilad lle rydym ni'n creu hanes ac yn parhau â stori Cymru fodern. Yn 2008, pasiwyd y gyfraith gyntaf yng Nghymru ers y ddegfed ganrif. Cytunwyd ar y trethi cyntaf yng Nghymru yn 2016 – y trethi cyntaf y cytunwyd arnynt yma mewn dros 900 o flynyddoedd.



## Yn y Siambr

Y Siambr yw ein siambr drafod.

Dyma lle mae Aelodau'r Senedd yn cyfarfod i ofyn cwestiynau, i drafod materion ac i'ch cynrychioli chi yn y Senedd.

### A wyddost ti?


Agorwyd y Senedd am y tro cyntaf ar Ddydd Gŵyl Dewi 2006.

### A wyddost ti?

Defnyddir ynni geothermol i wresogi'r Siambr.

**Beth yw enw'r addurn aur o flaen cadair y Llywydd?**





**Enwch y mosaig gwydr sydd wedi'i godi ar lawr y Siambr?**



# Busnes y Senedd

Mae Aelodau o'r Senedd yn ystyried, yn dadlau, ac yn pleidleisio ar gyfreithiau sy'n cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru ac ar yr arian sy'n cael ei wario ganddi.

Maen nhw hefyd yn gwneud awgrymiadau ar y camau y gellid eu cymryd i wneud Cymru yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi.

Galli di gysylltu â dy Aelod o'r Senedd ynghylch pethau sy'n dy boeni.

Gallai'r rhain fod yn bethau sy'n effeithio ar y wlad gyfan, neu'n bethau yn dy ardal leol, fel parc sglefrfryddio yn cau neu ormod o dai yn cael eu codi ar fannau gwyrdd a hynny'n effeithio ar dy amgylchedd lleol ac ar fywyd gwyllt.

## Datganoli

Ers 1999, mae datganoli wedi trosglwyddo pwerau o San Steffan i Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru.

**A allwch chi baru'r pwnc â'r maes y gall y Senedd wneud penderfyniadau yn ei gylch?**

- Cadwraeth Forol
- Llifogydd
- Diogelwch ar y Rhyngrwyd
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Cymorth iechyd meddwl
- Maethu
- Teithio llesol
- Band eang cyflym

### A wyddost ti?

Ystyr datganoli yw trosglwyddo pwerau. Gall Cymru wneud ei phenderfyniadau ei hun fel gwlad ar wahân i'r pynciau hynny y mae gan Senedd y DU bwerau drostynt.

Yr Amgylchedd




Iechyd



Ysgolion



Yr economi a thrafnidiaeth



## Deisebau

Fel etholwr ardal yng Nghymru, gallwch ysgrifennu at y Senedd a chychwyn deiseb ar faterion y mae gan y Senedd hawl i basio cyfreithiau arnyn nhw yng Nghymru. Mae yna bwyllgor o'r enw'r 'Pwyllgor Deisebau' sy'n cynnwys pedwar Aelod o'r Senedd sy'n ystyried y deisebau a gyflwynir.

## Sut mae ysgrifennu deiseb?

Mae deisebau da yn dweud yn glir beth maen nhw am i'r Senedd neu Lywodraeth Cymru ei wneud.

**Dyma rai enghreifftiau da:**

- Gwahardd Defnyddio Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau
- Gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd yng Nghymru i 16 oed.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dweud yn glir beth rydych chi eisiau i ni ei wneud.

**Enghreifftiau gwael:**

- Helpu pobl ifanc
- Trenau

Nid yw'r enghreifftiau hyn yn dweud yn glir beth rydych chi eisiau i ni ei wneud.

## A wyddost ti?

Mae pob deiseb gyda mwy na 250 llofnod yn cael ei thrafod gan y Pwyllgor Deisebau. Mae deisebau gyda mwy na 10,000 o lofnodion yn cael eu hystyried ar gyfer dadl yn y Senedd.

## Ysgrifenna dy ddeiseb dy hun

Gan ddefnyddio'r blwch isod, a dim mwy na 100 o nodau cyfrifiadurol, beth am ymarfer ysgrifennu deiseb i'w hanfon i'r Senedd.

Fe gei di ragor o wybodaeth am ddeisebau yng Nghymru ar ein gwefan: **deisebau.senedd.cymru**.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales